Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

National Assembly for Wales
External Affairs and Additional Legislation Committee

Mick Antoniw AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

30 Ebrill 2019

Annwyl Mick,

Gohebiaeth gan y Prif Weinidog ynghylch presenoldeb Gweinidogion yn y Pwyllgor ar ddydd Llun

Rwyf wedi cael gohebiaeth gan y Prif Weinidog ynghylch presenoldeb Gweinidogion yn y Pwyllgor ar ddydd Llun. Gan fod y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol hefyd yn cyfarfod ar ddydd Llun efallai y bydd cynnwys y llythyr yn ddefnyddiol ichi, felly rwy'n amgáu copi er gwybodaeth.

Yn gywir,



David Rees AC

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaethol Ychwanegol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMADY@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMADY
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddEAAL@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddEAAL
0300 200 6565

Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AC/AM
Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Rees AC
Cadeirydd
Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
SeneddEAAL@assembly.wales

12 Ebrill 2019

Annwyl David

Roeddwn eisiau ysgrifennu atoch i esbonio fy safbwynt o ran presenoldeb Gweinidogion mewn cyfarfodydd Pwyllgor ar ddydd Llun.

Fel y gwyddoch, rwy'n cynnal cyfarfodydd Cabinet bob prynhawn Llun am 3pm. Rwy'n disgwyl i Weinidogion roi blaenoriaeth i gyfarfodydd Cabinet pa bryd bynnag y bydd hynny'n bosibl ac mae Cod y Gweinidogion yn nodi'n glir bod cyfarfodydd y Cabinet yn cael blaenoriaeth dros unrhyw fater arall. Er hynny, mae'n bosibl ar adegau y bydd amgylchiadau *eithriadol* yn codi sy'n golygu efallai na fydd Gweinidog yn bresennol.

Rydym bellach yn gweld bod mwy a mwy o geisiadau yn cyrraedd sy'n gofyn i Weinidogion fod yn bresennol mewn cyfarfodydd pwyllgor ar ddydd Llun a hynny ar adegau sy'n golygu eu bod naill ai'n colli cyfarfod y Cabinet neu yn hwyr yn cyrraedd cyfarfod y Cabinet. Byddwn yn gwneud ein gorau i sicrhau bod Gweinidogion yn gallu bod yn bresennol mewn Pwyllgorau, ond nid yw'n ymarferol i Weinidogion drefnu busnes y Llywodraeth ar sail amserlenni'r pwyllgorau, yn enwedig ar fyr rybudd.

Rydych eisoes yn gwybod fy mod ar adegau wedi ad-drefnu fy nyddiadur ac wedi newid amser a lleoliad cyfarfodydd y Cabinet er mwyn fy ngalluogi i fod yn bresennol yn y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, ond nid yw bob amser yn bosibl i mi wneud hynny.

Gallaf eich sicrhau y byddwn yn parhau i fod mor hyblyg â phosibl ond pan fo'n ofynnol i Weinidogion fod yn bresennol ar ddydd Llun, byddai o gymorth mawr pe bai'r Pwyllgor yn ystyried dechrau'r cyfarfod am 1.30pm er mwyn sicrhau bod Gweinidogion yn gallu gadael ar ôl awr.

Rydych wedi fy ngwahodd i gyfarfod o'r Pwyllgor ddydd Llun 29 Ebrill. Rwy'n gwneud trefniadau i gynnal cyfarfod y Cabinet yn y Bae ar y diwrnod hwnnw er mwyn sicrhau fy mod yn gallu bod yn bresennol, ond bydd yn rhaid i fi adael y Pwyllgor erbyn 3pm.

Gyda chyfaddawdu yn digwydd ar y ddwy ochr, rwy'n sicr y gallwn ddod o hyd i ffordd o gydbwyso'r holl ofynion sy'n ein hwynebu.

Yn gywir

MARK DRAKEFORD

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 060 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 060 4400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru PS.FirstMinister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.